CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 6ed o EBRILL 2021 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, B.Owen, W.R.Owen J.W.Parry, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr K.Richards, S.Sage

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Dim

3. **Datgan Buddiant Personol**

Y Cynghorydd I.C.Thomas – eitem 5(ii) – eitem 6
Y Cynghorydd C.Larsen – eitem 5(ii) – eitem 6

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc**)

Dim.

5. **Cofnodion**

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 2il o Fawrth 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir, yn amodol ar newid y dyddiad yn eitemau 8 a 9 yn y fersiwn Saesneg i ddarllen "Mayoralty 2021/22" (unfrydol).

ii. Pwyllgor Gwaith – 9fed o Fawrth 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir, yn amodol ar ofyn i'r Clerc ysgrifennu at Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd yn gofyn iddyn nhw ddelio gyda baw cŵn a thorri gwair yn y parciau fel mater o flaenoriaeth (nodwyd y gellid dod â hyn i mewn i'r drafodaeth ar yr offer chwarae ar gyfer parciau'r dref, yn ogystal â thrafod rhaniad dyleswyddau Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Tref.

Bu i'r Cynghorydd W.R.Owen ymatal ei bleidlais.

iii. Pwyllgor Adloniant – 23ain o Fawrth 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

6. **Cyfrifon**

Penderfynwyd derbyn a'u talu (unfrydol).

7. **Cysoni Cyfrifon**

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).

8. Maerolaeth 2021/22

Trafodwyd gwahanol opsiynau o ran Maerolaeth 2021/22 a'r Cyfarfod Blynyddol.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Cymryd arweiniad y Clerc o ran sut ddylai'r Cyfarfod Blynyddol (20fed o Fai) gymryd lle'n ddiogel, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
(2) Dylid ystyried opsiynau fel "Live Streaming".
(3) Cynnal noson bellach yn yr Hydref er mwyn dathlu ethol y Cynghorydd Maria Sarnacki fel Maer.

9. Aelodaeth Un Llais Cymru 2021/22

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Un Llais Cymru i adnewyddu aelodaeth ar gyfer 2021/22.

Penderfynwyd ymaelodi gydag Unllais Cymru ar gyfer 2021/22.

10. Cynllun Eryri

Cyflwynwyd gwybodaeth am Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri.

Penderfynwyd derbyn y Cynllun er gwybodaeth (unfrydol).

11. Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru

Cyflwynwyd, er gwybodaeth gofnodion drafft o'r cyfarfod o Gylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar y 10fed o Fawrth, 2021.

Tynnwyd sylw'r aelodau at y materion canlynol:

- Ymweliad Iwerddon
- Cyfranogiad plant, oedolion ifanc a'r gymuned mewn digwyddiadau

Penderfynwyd (unfrydol):
(1) Nodi'r cofnodion drafft er gwybodaeth.
(2) Ymgynnull y grŵp oedd yn bodoli cyn Covid-19 i drafod ymweliad Iwerddon.
(3) Dod â'r eitem ar gyfranogiad plant, oedolion ifanc a'r gymuned mewn digwyddiadau i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol agos.

12. Toiledau Cyhoeddus

Cyflwynwyd llythyr ynglŷn â chytundeb toiledau cyhoeddus 2021/22 gan Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd, oedd yn nodi:

(1) O hyn allan na fydden yn anfon cytundeb o'r newydd yn flynyddol oherwydd nid oedd newid i'r cytundeb presennol, ac felly roedd y cytundeb presennol yn dal i sefyll.
(2) Os bydd unrhyw newid i amodau'r cytundeb bydd Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad gyda chytundeb newydd i'w arwyddo.
(3) Bydd anfoneb yn cael ei anfon at y Cyngor Tref am y cyfraniad fel rhan o'r bartneriaeth ar ddechrau flwyddyn ariannol newydd.

Penderfynwyd derbyn yr wybodaeth am y gontract (unfrydol).

13. Gwersyll Gwyliau Ferodo

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Gylch yr Iaith ynglŷn â Gwersyll Gwyliau Ferodo.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth yn y llythyr (unfrydol).

14. Arolwg Cysylltedd Digidol

Cyflwynwyd gwybodaeth am yr arolwg uchod.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

15. Calendr y Cyngor

Cyflwynwyd calendr y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Penderfynwyd mabwysiadu'r calendr am y cyfnod 1af Mehefin 2021 – 31ain Mai 2022, a gofyn i'r Clerc anfon copi lliw o'r calendr i'r aelodau (unfrydol).

16. Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Tref Caernarfon a Chyngor Gwynedd ar gyfer darparu system Teledu Cylch Cyfyng Mannau Cyhoeddus

Cyflwynwyd copi o'r cytundeb diweddaraf.

Nodwyd bod y map ar goll o'r rhaglen, ac felly nid oedd yr aelodau'n gallu gweld yr holl gyd-destun.

Penderfynwyd:

(1) Gan fod y map ar goll o'r rhaglen, ac felly nid oedd yr aelodau'n gallu gweld yr holl gyd-destun, peidio â mabwysiadu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Tref Caernarfon a Chyngor Gwynedd ar gyfer darparu system Teledu Cylch Cyfyng Mannau Cyhoeddus am y cyfnod 1af Ebrill 2021 - 31ain Mawrth 2024 yn y cyfarfod hwn.

(2) Rhoi'r mater gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn, efo'r holl wybodaeth.

17. Gŵyl Arall

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi'r wybodaeth er mwyn i'r aelodau benderfynu os am gyfrannu at Gŵyl Arall yn 2020/21.

Nodwyd:

(1) Y penderfyniad gwreiddiol oedd bod Gŵyl Arall yn derbyn cyfraniad gan y Cyngor Tref o £1,000 ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2020/21.

(2) Yn dilyn hyn, yn sgîl Covid-19, newidiodd y sefyllfa o ran Gŵyl Arall a digwyddiadau cyffelyb, gyda nifer o ddigwyddiadau, a oedd i'w cynnal yn 2020/21, yn cael eu canslo.

(3) Bu i'r Clerc ofyn am gyngor gan Un Llais Cymru ar hyn yn ogystal â rhoi'r mater gerbron cyfarfod o Gyngor Llawn y Cyngor Tref. Roedd angen penderfyniad o ran yr egwyddor o dalu arian yn 2020/21 tuag at ddigwyddiadau oedd wedi eu canslo oherwydd Covid-19.

(4) Yr ymateb a gafwyd gan Un Llais Cymru oedd na fyddai'n briodol i wneud taliadau grant i sefydliadau oedd wedi gofyn am arian ar gyfer digwyddiadau nad oedd bellach yn gallu cymryd lle oherwydd yr argyfwng cenedlaethol. Fodd bynnag gallasai rhai sefydliadau fod wedi cael costau nad oeddynt yn medru eu hosgoi, a posib eu bod angen iddynt ofyn am arian i dalu am y costau hyn.

(5) Yn sgîl hyn oll, penderfynodd y Cyngor i dalu'r arian a glustnodwyd i'r sefydliadau perthnasol ar gyfer 2020/21 yn 2021/22. Felly roedd Gŵyl Arall i dderbyn y £1,000 yn 2021/22 yn hytrach nag yn 2020/21.

(6) Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Gŵyl Arall (a digwyddiadau cyffelyb) i'w hysbysu y gallent wneud cais am unrhyw gostau annisgwyl y byddent yn gorfod eu hwynebu yn 2020/21.

Mewn ymateb cododd Gŵyl Arall y pwyntiau canlynol:

(1) Er na fydd yr ŵyl yn cael ei gynnal yn y ffordd arferol, hynny yw yn fyw, cynhaliwyd digwyddiadau ar-lein, mewn ffordd wahanol, Gŵyl FFOR Arall.

(2) Y cynhaliwyd o leiaf un digwyddiad y diwrnod drwy gydol mis Gorffennaf, yn cychwyn o'r 7fed, yn gymysgedd o sgyrsiau / llenyddiaeth, cerddoriaeth, celf, teithiau a llawer mwy. Roedd y rhain yn

cael eu darlledu'n fyw, neu'n cael eu recordio a'i dangos 'fel byw' ar eu sianel YouTube, sianel AM a Facebook.

(3) Byddai Gŵyl Arall yn gwerthfawrogi cael y swm yn ei gyfanrwydd, sef y £1,000 (ar gyfer 2020/21).

(4) Bod y rhestr o'r costau fel a ganlyn:

- 19/02/2020 – W.O. Jones Rhaglenni a phosteri - £259.00
- 27/02/2020 - Rhian George Arian - £1,500.00 (nodwyd and oedd hwn yn rhywbeth y gellid cael cyfraniad gan y Cyngor Tref ar ei gyfer)
- 20/07/2020 - Catrin Williams Fideo gweithdy - £40.00
- 30/07/2020 - Rhys Mwyn Darlith - £30.00
- 30/07/2020 - Elin Haf Tomos Darlith - £30.00
- 09/09/2020 - Menai Rowlands Golygu fideo - £40.00
- 09/09/2020 - Eleri Parry - Darlith £40.00
- 23/09/2020 - Doco Dylunio Gŵyl FFOR Arall - £450.00
- 28/10/2020 - Iwan Standley Cynnal Gwefan - £300.00
- Cyfanswm - £2689.00

(5) Bod amcan o gostau Gŵyl Ddewi Arall eleni fel a ganlyn:

- Gwefan a dylunio - £750.00
- Cyfranogwyr - £240.00

(6) Roedd cyfanswm yr holl gostau yn £3,679.00

(7) Gofynnwyd i'r Clerc gyflwyno'r costau uchod gerbron y Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad ar gyfraniad 2020/21.

Penderfynwyd cyfrannu £1,000 tuag at Gŵyl Arall yn 2020/21.

Bu i'r Cynghorwyr K.Jones, W.R.Owen a J.W.Parry ymatal eu pleidlais.

Gadawodd y Cynghorwyr W.R.Owen a J.W.Parry y cyfarfod am 7.00 p.m.

18. Ysgol Syr Hugh Owen

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi'r wybodaeth ar y cysylltiadau sy'n cael eu datblygu gydag Ysgol Syr Hugh Owen.

Nododd y Clerc:

(1) Bod y Pwyllgor Adloniant wedi penderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod ar y 12fed o Ionawr, 2021:

"Argymell y dylid creu trefn / fforwm fel bod disgyblion chweched dosbarth yn cyfarfod gyda'r Cyngor Tref bob rhyw 6 mis er mwyn ennyn diddordeb yn y broses ddemocrataidd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig gan fod pobl ifanc 16 - 17 oed yn cael yr hawl i bleidleisio mewn rhai etholiadau."

(2) Cafodd y cofnod ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 2il Chwefror, 2021.

(3) Erbyn hyn ei fod wedi cyfarfod gydag aelodau perthnasol o staff Ysgol Syr Hugh Owen, ac roedd yr awydd i gydweithio ac i ddatblygu hyn yn dod o'r ddwy ochr.
(4) Roedd linc yma i gwrs Gwleidyddiaeth oedd yn cael ei gynnig yn y chweched dosbarth.
(5) Yr awgrymwyd amserlen benodol ar gyfer y tymor canolig.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cynllun a amlinellir isod fel ffordd ymlaen (unfrydol):

- **Gwahoddiad i ddau / dwy gynghorydd fynd i siarad gyda Gwasanaeth y Chweched Dosbarth rhwng y Pasg a'r Sulgwyn – esbonio rôl y Cyngor Tref a chyfle i gyflwyno eu hunain.**
- **Cyngor Llawn, 6ed o Orffennaf – gwahoddiad i gynrychiolaeth o'r ysgol i eistedd i mewn yn y cyfarfod o'r Cyngor Llawn.**
- **Ar ôl yr Haf – gwahoddiad i gynrychiolaeth o'r ysgol i gymryd rhan mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn, gyda'r bwriad o drafod eitemau oedd yn bwysig iddynt hwy fel pobl ifanc yn y dref.**
- **Y dylai'r eitemau ar y rhaglen fod o ddiddordeb i bobl ifanc.**
- **Rhoi eitem ar Gylch Cyfeillgarwch Tref Caerog Gogledd Cymru - cyfranogiad plant, oedolion ifanc a'r gymuned mewn digwyddiadau - ar raglen y cyfarfod.**

19. Cwestiynau

(1) Y Cynghorydd Maria Sarnacki

Mae llawer o drefi ledled y wlad wedi cychwyn gerddi coffa ac ati i gofio pawb sydd wedi cael eu heffeithio gan Covid-19. Roeddwn yn pendroni a allem wneud rhywbeth fel y gallai ardal arbennig fod yn fainc yn rhywle fel Parc Coed Helen neu'n ardal bicnic ar draws yr aber. Byddai'n rhywle y gallai pobl eistedd ac adlewyrchu, neu fwynhau'r man gwyrdd agored. Mae hyn wedi effeithio ar gynifer o ffyrdd, yn enwedig iechyd meddwl.

Nododd y Clerc y byddai'n edrych i mewn i hyn.

(2) Y Cynghorydd Ann Hopcyn

A fyddai recordio cyfarfod llawn y cyngor a'i bostio ar y wefan (lincio i youtube) yn fodd i fod yn dryloyw a rhannu gwybodaeth gyda thrigolion?

Nododd y Clerc y byddai'n edrych i mewn i hyn.

(3) Y Cynghorydd Ann Hopcyn

Ymgynghoriad Gwynedd parthed y draphont yn y dref - Mae dros flwyddyn ers i ni gael cynrychiolydd o Wynedd yn ein cyfarfod ond mae'r gwaith ar y ffordd osgoi wedi parhau a dyddiad ei agor yn agosáu. Oes posib holi Cyngor Gwynedd am y wybodaeth ddiweddaraf parthed eu bwriad os gwelwch dda.

Nododd y Clerc y byddai'n edrych i mewn i hyn.

(4) Y Cynghorydd I.C.Thomas

Beth yw'r diweddaraf o ran cael system electronig o rannu rhaglenni'r Cyngor a phwyllgorau?

Nododd y Clerc y byddai'n edrych i mewn i hyn.

20. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

21. Grant CaerAilGyfle

[redacted]

[redacted]

(2) Gwahodd y Wasg yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.25 p.m.

[redacted]

Arwyddwyd .....

Dyddiad .....